# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-20-09)

**Dyddiad: 12 Tachwedd 2009**
**Amser: 9:00 – 11:20**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgorau 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Charles Mathieson, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
David Liddy, y Comisiwn Coedwigaeth
Andy Shan,
Rebecca Cadbury, Clwb Canwio Arberth
Chris Randall, y Gymdeithas Canwio Agored
Kate Rew, y Gymdeithas Nofio yn yr Awyr Agored
Peter Blackburn, Canolfan Addysg Awyr Agored Plas Pencelli
David Evans
Pete Bursnall, Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Cynaliadwy
Pam Bell
Peter Wood, Gwasg Pesda

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Karen Sinclair.

### Eitem 2: Mynediad i ddwr mewndirol: Sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Charles Mathieson a David Liddy i'r Pwyllgor a'u gwahodd i gyflwyno eu sylwadau agoriadol. Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

### Eitem 3: Mynediad i ddwr mewndirol: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Andy Shan, Rebecca Cadbury, Chris Randall, a Kate Rew i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

3.2 Cytunodd Rebecca Cadbury i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch canslo'r digwyddiad canwio blynyddol yng Nghenarth.

### Eitem 4: Mynediad i ddwr mewndirol: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Blackburn, David Evans, Peter Bursnall, Peter Wood a Pam Bell i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

### 5: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5

5.1 Gwnaed cynnig gan y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion mewn cysylltiad â'u gwaith mewnol.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 6: Penodi Cynghorwr Arbenigol ar gyfer yr adroddiad terfynol ar Ostwng Carbon

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y contract arfaethedig ar gyfer penodi cynghorwr arbenigol.